Senedd Cymru
**Busnes y Senedd**

# Canllaw i'r cyfnodau craffu ar gyfer Biliau Cyhoeddus

Mai 2026

Dysgwch fwy:
**senedd.cymru**

Senedd Cymru yw’r corff sy’n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a’i phobl. Mae’r Senedd, fel y’i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o’r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o’r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost **Cysylltu@senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy’n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen

# Cynnwys

**Crynodeb o'r broses ar gyfer Craffu ar Filiau Cyhoeddus gan y Senedd ........ 5**

**Cyflwyno Bil Cyhoeddus ........ 7**

Ffurf a chyflwyniad ........ 7

Dogfennaeth gysylltiedig ........ 7

**Cyfnod 1 – pwyllgor yn ystyried egwyddorion cyffredinol Bil, a'r Senedd yn cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol hynny ........ 9**

Cyfeirio Bil at 'bwyllgor cyfrifol' ........ 9

Rôl y pwyllgor cyfrifol ........ 10

Craffu Cyfnod 1 gan bwyllgor cyfrifol ........ 10

Pwyllgorau eraill y Senedd yn ystyried y Bil ........ 11

Dadl Cyfnod 1 ........ 11

Cwblhau Cyfnod 1 ........ 11

**Penderfyniad Ariannol ........ 13**

Beth yw penderfyniad ariannol? ........ 13

Pam mae angen penderfyniadau ariannol? ........ 13

Amgylchiadau penodol lle mae angen penderfyniad ariannol ........ 14

Prif bwyntiau eraill am benderfyniadau ariannol ........ 14

**Cyfnod 2 – pwyllgor yn ystyried y Bil yn fanwl ........ 15**

Dechrau Cyfnod 2 a chyfeirio Bil at 'bwyllgor cyfrifol' ........ 15

Yr amserlen ar gyfer Cyfnod 2 ........ 16

Rôl y pwyllgor cyfrifol ........ 16

Cyflwyno gwelliannau ........ 16

Trefn y broses ystyried ........ 17

Grwpio gwelliannau ........ 17

Gwneud a chofnodi penderfyniadau ar welliannau yn y pwyllgor ........ 17

Cynnig gwelliannau yn ystod trafodion pwyllgorau ........ 17

Gwaredu gwelliannau yn ystod trafodion pwyllgorau ........ 18

Cwblhau Cyfnod 2 ........ 18

Y Bil, fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 2 ........ 18

Memoranda Esboniadol diwygiedig ........ 19

**Cyfnod 3 – y Senedd yn ystyried y Bil yn fanwl ........ 20**

Dechrau Cyfnod 3 ........ 20

Yr amserlen ar gyfer Cyfnod 3 ........ 20

Rôl y Senedd ........ 21

Cyflwyno gwelliannau ........ 21

Trefn ystyried ........ 21

Dethol gwelliannau ........ 22

Amserlennu trafodion ........ 22

Gwneud penderfyniadau ar welliannau yn y Cyfarfod Llawn a'u cofnodi ........ 22

Trafodion Cyfnod 3 pellach ........ 23

Cwblhau Cyfnod 3 ........ 24

Y Cyfnod Adrodd a'r Cyfnod Adrodd pellach ........ 24

Y Bil, fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 3 ........ 24

Memorandwm Esboniadol Diwygiedig ........ 25

**Cyfnod 4 ac ymhellach – y Senedd yn pasio'r Bil ac yn ei gyflwyno ar gyfer y Cydsyniad Brenhinol ........ 26**

Cyfnod 4 ........ 26


Ar ôl Cyfnod 4 ........ 27

Ailystyried Biliau ........ 28


Ar ôl Cyfnod Ailystyried ........ 30

Cydsyniad Brenhinol ........ 30

# Crynodeb o'r broses ar gyfer Craffu ar Filiau Cyhoeddus gan y Senedd



**Canllaw i'r cyfnodau Craffu ar gyfer Biliau Cyhoeddus**



# Cyflwyno Bil Cyhoeddus

**1.** Mae adran 110(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu y gall Gweinidogion Cymru neu unrhyw Aelod o'r Senedd arall gyflwyno Bil, yn amodol ar Reolau Sefydlog y Senedd.

**2.** Mae Rheolau Sefydlog 26.1 i 26.6 yn darparu'r fframwaith ar gyfer cyflwyno Bil cyhoeddus i mewn i'r Senedd.

**3.** Ar ôl cael ei gyflwyno, bydd tudalen we yn cael ei chyhoeddi ar y we ar gyfer y Bil. Bydd manylion am y Bil a'i thaith drwy'r Senedd yn cael eu cyhoeddi ar y dudalen hon.

## Ffurf a chyflwyniad

**4.** Mae Rheolau Sefydlog 26.1 i 26.5 yn darparu bod yn rhaid i Fil, er mwyn cael ei gyflwyno, gael ei osod gerbron y Senedd yn ystod wythnos y mae'r Senedd yn eistedd, rhaid ei fod ar ffurf briodol yn ôl unrhyw benderfyniad a wnaed gan y Llywydd, a bod datganiad gan y Llywydd yn cyd-fynd ag ef mewn perthynas ag a yw darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**5.** Mae Rheol Sefydlog 26.5 yn darparu bod yn rhaid cyflwyno Bil yn Gymraeg ac yn Saesneg, oni bai:

- bod Aelod sy'n gyfrifol amdano yn datgan mewn ysgrifen, mewn perthynas â Bil llywodraeth, na fyddai, am resymau penodedig, yn briodol o dan yr amgylchiadau neu yn rhesymol ymarferol i'r Bil gael ei gyflwyno yn y ddwy iaith; neu
- bod peidio â gwneud hynny yn cyd-fynd â phenderfyniadau a gyhoeddwyd gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 26.3.


## Dogfennaeth gysylltiedig

**6.** Mae Rheol Sefydlog 26.6 yn darparu y mae'n rhaid cysylltu Memorandwm Esboniadol i Fil wrth ei gyflwyno y mae'n rhaid iddo:

- ddatgan y byddai darpariaethau'r Bil, ym marn yr Aelod, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd;
- nodi amcanion polisi y Bil;

- nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu;
- nodi'r ymgynghori a gafwyd ar y Bil, ynghyd â chrynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw;
- nodi'r rhesymau pam nad oedd y Bil, neu unrhyw ran ohono, wedi'i gyhoeddi o'r blaen fel drafft;
- crynhoi yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil;
- gosod yr amcangyfrifon gorau o oblygiadau ariannol y Bil;
- nodi unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil;
- nodi manylion unrhyw bwerau yn y Bil i wneud is-ddeddfwriaeth;
- os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef neu hi ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio; a
- nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf.

# Cyfnod 1 – pwyllgor yn ystyried egwyddorion cyffredinol Bil, a'r Senedd yn cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol hynny




**7.** Mae Adran 111(1)(a) Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Reolau Sefydlog y Senedd gynnwys darpariaeth ar gyfer dadl gyffredinol ar Fil a rhoi cyfle i Aelodau o'r Senedd bleidleisio ar ei egwyddorion cyffredinol.

**8.** Mae Cyfnod 1 proses ddeddfwriaethol y Senedd yn rhoi'r gofyniad hwn ar waith ac mae'n cynnwys ystyriaeth o egwyddorion cyffredinol Bil gan bwyllgor, a chytundeb ar yr egwyddorion cyffredinol hynny gan y Senedd.

**9.** Mae Rheolau Sefydlog 26.9 i 26.15 yn darparu'r fframwaith ar gyfer Cyfnod 1.

## Cyfeirio Bil at 'bwyllgor cyfrifol'

**10.** Pan fydd Bil wedi'i gyflwyno i'r Senedd, rhaid i'r Pwyllgor Busnes benderfynu a ddylid ei gyfeirio at bwyllgor i ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Rheol Sefydlog 26.9).

**11.** Cyfeirir at y pwyllgor y mae'r Pwyllgor Busnes yn cyfeirio'r Bil ato fel y 'pwyllgor cyfrifol'.

**12.** Rhaid i'r Pwyllgor Busnes hefyd bennu a chyhoeddi amserlen ar gyfer ystyried y Bil yng Nghyfnod 1 a 2 (Rheol Sefydlog 26.7). Gall y Pwyllgor Busnes wneud newidiadau i'r amserlen yn ddiweddarach os yw'n dymuno gwneud

hynny, ond rhaid iddo roi rhesymau dros wneud hynny (Rheol Sefydlog 26.8). Gallai hyn gynnwys cais gan y pwyllgor cyfrifol neu'r Aelod sy'n gyfrifol[1] am y Bil.

**13.** Os yw'r Pwyllgor Busnes yn penderfynu peidio â chyfeirio'r Bil at bwyllgor cyfrifol yng Nghyfnod 1, gall yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil gyflwyno cynnig yn cynnig bod y Senedd yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil (Rheol Sefydlog 26.12).

## Rôl y pwyllgor cyfrifol

**14.** Rôl y pwyllgor cyfrifol yn ystod Cyfnod 1 yw ystyried a chyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil (y cyfeirir ato hefyd fel 'craffu Cyfnod 1').

**15.** Bydd gwaith y pwyllgor ar y Cyfnod hwn yn canolbwyntio ar archwilio prif bwrpas neu bwrpasau'r Bil, yn hytrach nag edrych ar fanylion y testun (sy'n fater ar gyfer Cyfnodau 2 a 3, a'r Cyfnod Adrodd lle y bo'n briodol).

**16.** Wrth gynnal ei waith craffu, gallai'r pwyllgor cyfrifol ddewis ystyried:

- nodau/amcanion polisi'r Bil;
- pa un a oes angen deddfwriaeth i gyflawni'r nodau/amcanion hynny; ac
- a all y Bil, fel y'i drafftiwyd, gyflawni'r nodau/amcanion a ddatganwyd ynddo.

## Craffu Cyfnod 1 gan bwyllgor cyfrifol

**17.** Nid oes gofynion penodol yn y Rheolau Sefydlog am y modd y dylai'r pwyllgor cyfrifol ymgymryd â'i waith. Fodd bynnag, fel arfer bydd y pwyllgor yn gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig a llafar gan bartïon a diddordeb.

**18.** Fel arfer mae galwad am dystiolaeth ysgrifenedig yn cael ei gyhoeddi gan y pwyllgor cyfrifol ar ddechrau ei waith craffu Cyfnod 1, ac mae'n cynnal nifer o gyfarfodydd i gael tystiolaeth lafar gan amrywiaeth o randdeiliaid â diddordeb, yn cynnwys yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, ac, ar gyfer Biliau anllywodraethol, y Gweinidog perthnasol.

**19.** Ar ddiwedd y gwaith craffu yn ystod Cyfnod 1, rhaid i'r pwyllgor cyfrifol gyhoeddi adroddiad, a allai gynnwys argymhelliad bod y Senedd naill ai'n cytuno neu'n anghytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil. Gallai'r adroddiad

[1] Gall Llywodraeth Cymru, Pwyllgor y Senedd, Aelod unigol neu Gomisiwn y Senedd gyflwyno Bil cyhoeddus. Fel arfer yr Aelod sy'n gyfrifol yw'r Aelod a gyflwynodd y Bil (Rheol Sefydlog 24).

hefyd gynnwys argymhellion ar gyfer gwelliannau i'r Bil, yn seiliedig ar y wybodaeth sydd wedi dod i law, neu unrhyw fater arall perthnasol y mae'r pwyllgor am wneud sylw arno.

## Pwyllgorau eraill y Senedd yn ystyried y Bil

### Darpariaethau is-ddeddfwriaeth mewn Bil

**20.** Os yw'r Bil yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (er enghraifft rheoliadau neu orchmynion), gall y Pwyllgor Deddfwriaeth ystyried goblygiadau'r Bil ac adrodd arnynt (Rheol Sefydlog 21.7).

### Agweddau ariannol Bil

**21.** Gall y pwyllgor cyfrifol ystyried agweddau ariannol Bil, fel rhan o'i ystyriaeth o egwyddorion cyffredinol Bil. At hynny, gall y Pwyllgor Cyllid hefyd ystyried ac adrodd ar oblygiadau ariannol y Bil (Rheol Sefydlog 19.2).

## Dadl Cyfnod 1

**22.** Pan fydd y pwyllgor cyfrifol wedi cyflwyno adroddiad ar y Bil (neu wedi methu â chyflwyno adroddiad yn yr amser a ddynodwyd), neu mewn achosion lle mae'r Pwyllgor Busnes wedi penderfynu peidio â chyfeirio'r Bil at bwyllgor, bydd amser yn cael ei roi yn y Cyfarfod Llawn i'r Senedd drafod a phenderfynu ar a ddylid cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil - 'dadl Cyfnod 1'.

**23.** Rhaid cael pum niwrnod gwaith o leiaf rhwng y dyddiad y mae'r pwyllgor cyfrifol yn cyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil (neu'r dyddiad cau erbyn pryd y dylai'r pwyllgor fod wedi cyflwyno adroddiad) a dyddiad dadl Cyfnod 1 (Rheol Sefydlog 26.11).

**24.** Mae dadl Cyfnod 1 yn cael ei chynnal ar gynnig gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, "Bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil [teitl]. Gellir diwygio cynnig o'r fath, ond ni fydd gwelliannau a allai achosi amheuaeth ynghylch a yw'r Senedd yn cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol ai peidio, neu sy'n ceisio diwygio'r Bil, yn cael eu derbyn.

## Cwblhau Cyfnod 1

**25.** Mae Cyfnod 1 yn cael ei gwblhau yn dilyn pleidlais gan y Senedd ar egwyddorion cyffredinol y Bil (Rheol Sefydlog 26.15).

**26.** Os bydd pleidlais gyfartal, bydd y Llywydd yn defnyddio ei bleidlais fwrw. Bydd y bleidlais fwrw yn gadarnhaol mewn pleidlais ar egwyddorion cyffredinol Bil yng Nghyfnod 1 (i alluogi trafodaeth bellach ar y Bil mewn Cyfnodau diweddarach).

**27.** Os bydd y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil, mae'n symud ymlaen i Gyfnod 2 er mwyn i bwyllgor ei ystyried yn fanwl (Rheol Sefydlog (26.13).

**28.** Os na fydd y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil, mae'r Bil yn methu ac ni weithredir ymhellach arno (Rheol Sefydlog 26.14).

# Penderfyniad Ariannol

## Beth yw penderfyniad ariannol?

**29.** Penderfyniad ariannol yw awdurdodiad gan y Senedd, mewn egwyddor, i Weinidogion Cymru wario arian ar wasanaeth newydd, neu at ddiben newydd, neu i gynyddu gwariant ar wasanaeth neu at ddiben presennol, o ganlyniad i Fil.

**30.** Mae'r penderfyniad ariannol yn cydnabod mai Cronfa Gyfunol Cymru fydd yn rhaid ateb y galw am arian o ganlyniad i'r Bil arfaethedig[2]. Mae hyn ar wahân i'r broses gyllidebol flynyddol a chynnig y gyllideb, sy'n pennu swm yr adnoddau i'w dyrannu i wasanaethau a phwrpasau penodol ar gyfer blynyddoedd ariannol unigol h.y. gwario arian ar swyddogaethau sydd eisoes wedi'u cyflwyno gan ddeddfiadau amrywiol.

**31.** Os yw'r Llywydd yn penderfynu bod angen penderfyniad ariannol ar gyfer Bil, fel arfer mae cynnig bod y Senedd yn cytuno ar y penderfyniad ariannol yn cael ei wneud yn syth ar ddiwedd y ddadl ar yr egwyddorion cyffredinol. Mae'r cynnig yn gofyn i'r Senedd gytuno mewn egwyddor ar ganlyniadau ariannol posibl y Bil.

## Pam mae angen penderfyniadau ariannol?

**32.** Mae Biliau'r Senedd, fel deddfiadau eraill, yn creu swyddogaethau (pwerau a dyletswyddau). Bydd cyflwyno swyddogaethau gan Fil yn aml yn arwain at godi refeniw neu at gais newydd am arian neu am ragor o arian. Y Senedd (yn hytrach na Llywodraeth Cymru) fydd yn cymeradwyo codi'r refeniw neu'r defnydd o adnoddau.

[2] Cronfa Gyfunol Cymru yw ble caiff yr arian a bennir gan Lywodraeth y DU ar gyfer Cymru ei gadw. Yn ychwanegol at y gyllideb a ddarperir i Lywodraeth Cymru, mae gwariant Comisiwn y Senedd, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru hefyd yn dod allan o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r Senedd yn gyfrifol am gymeradwyo cynigion ar y gyllideb a chynigion atodol ar y gyllideb a gynigir gan Weinidogion Cymru. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn awdurdodi taliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru i Weinidogion Cymru os yw'r gwariant wedi'i awdurdodi gan y Senedd.

## Amgylchiadau penodol lle mae angen penderfyniad ariannol

**33.** Mae angen penderfyniadau ariannol pryd mae Bil:

- yn codi gwariant ar, neu gynyddu'n arwyddocaol y gwariant sydd yn cael ei godi o Gronfa Gyfunol Cymru;
- yn arwain at wariant arwyddocaol sy'n daladwy o'r gronfa honno ar gyfer gwasanaeth neu ddiben newydd neu gynnydd arwyddocaol yn y gwariant sy'n daladwy o'r gronfa honno ar gyfer gwasanaeth neu ddiben presennol; neu
- y byddai'n gosod neu'n cynyddu tâl, neu fel arall yn ei gwneud yn ofynnol gwneud taliad (yn cynnwys drwy ddarpariaeth y gellir ei gwneud gan is-ddeddfwriaeth) er budd y Gronfa (Rheolau Sefydlog 26.69 i 26.71).

**34.** Y Llywydd sydd i benderfynu ymhob achos a oes angen penderfyniad ariannol ar Fil (Rheol Sefydlog 26.68). Gwneir y penderfyniad hwn fel rheol wrth i Fil gael ei gyflwyno. Gall y Llywydd benderfynu gwyrdroi'r penderfyniad hwnnw yn dilyn tystiolaeth a geir yng Nghyfnod 1.

## Prif bwyntiau eraill am benderfyniadau ariannol


**35.** Mae Cyfnod 2 yn dechrau ar ôl cytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil (Rheolau Sefydlog 26.15 a 26.16). Fodd bynnag, ni ellir gwneud trafodion Cyfnod 2 ar Fil (hy gwaredu gwelliannau) tan i benderfyniad ariannol, os bydd angen un, gael ei gytuno (Rheolau Sefydlog 26.69 i 26.70).

**36.** Mewn achos Bil lle mae'r Llywydd wedi penderfynu nad oes angen penderfyniad ariannol, os mai effaith gwelliant a gyflwynwyd i'r Bil hwnnw fyddai'r angen am benderfyniad ariannol pe bai'n cael ei dderbyn, ni ellir cymryd trafodion ar y gwelliant tan i benderfyniad o'r fath gael ei roi ar waith (Rheol Sefydlog 26.72).

**37.** Ni ellir diwygio cynnig ar gyfer penderfyniad ariannol, a dim ond aelod o Lywodraeth Cymru sy'n gallu gwneud cynnig am benderfyniad ariannol (Rheol Sefydlog 26.73). Felly, ar gyfer Biliau anllywodraethol lle mae angen penderfyniad ariannol, yr Aelod sy'n gyfrifol ddylai ofyn i Lywodraeth Cymru wneud cynnig addas o fewn chwe mis i gwblhau Cyfnod 1.

**38.** Os bydd angen penderfyniad ariannol, ond nad yw'n cael ei gytuno o fewn chwe mis i gwblhau Cyfnod 1, mae'r Bil yn methu (Rheol Sefydlog 26.74).

# Cyfnod 2 – pwyllgor yn ystyried y Bil yn fanwl




**39.** Mae Adran 111(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol bod Rheolau Sefydlog y Senedd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ystyried manylion Bil ac i Aelodau o'r Senedd bleidleisio arno.

**40.** Mae Cyfnod 2 ym mhroses ddeddfu'r Senedd yn bodloni'r gofyniad hwn, ac yn cynnwys pwyllgor yn ystyried y Bil yn fanwl.

**41.** Mae Rheolau Sefydlog 26.16 i 26.28 yn darparu'r fframwaith ar gyfer Cyfnod 2. Mae Rheolau Sefydlog 26.7 i 26.8 hefyd yn berthnasol gan eu bod yn ymwneud â'r amserlen ar gyfer ystyried Bil.

**42.** Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r Canllawiau i Welliannau i Filiau, sy'n nodi'r rheolau a'r gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno, ystyried a gwneud penderfyniad ar (neu 'waredu') welliannau yng Nghyfnod 2.

## Dechrau Cyfnod 2 a chyfeirio Bil at 'bwyllgor cyfrifol'

**43.** Os yw'r Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol Bil yng Nghyfnod 1, mae'r Bil yn symud ymlaen i Gyfnod 2. Mae Cyfnod 2 yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i Gyfnod 1 ddod i ben (Rheol Sefydlog 26.16).

**44.** Rhaid i'r Pwyllgor Busnes naill ai—

- cyfeirio'r Bil at bwyllgor cyfrifol ar gyfer trafodion Cyfnod 2 (Rheolau Sefydlog 26.18(i)-(ii)), neu
- gynnig, drwy gyfrwng cynnig yn y cyfarfod llawn, y dylai trafodion Cyfnod 2 gael eu hystyried gan Bwyllgor o'r Senedd cyfan yn cynnwys yr holl Aelodau i'w gadeirio gan y Llywydd (Rheol Sefydlog 26.18(iii)).

## Yr amserlen ar gyfer Cyfnod 2

**45.** Wrth gyfeirio Bil at bwyllgor, rhaid i'r Pwyllgor Busnes hefyd sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer cwblhau trafodion Cyfnod 2 (Rheol Sefydlog 26.7)

**46.** Ac eithrio Biliau Brys, rhaid i 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio rhwng dechrau Cyfnod 2 a dyddiad cyfarfod cyntaf y pwyllgor cyfrifol pryd ystyrir gwelliannau i'r Bil (Rheol Sefydlog 26.17). Bwriad hyn yw sicrhau bod digon o amser i'r Aelodau ystyried a chyflwyno gwelliannau i'r Bil cyn i drafodion Cyfnod 2 ddechrau.

**47.** Ni all unrhyw drafodion Cyfnod 2, hy gwaredu gwelliannau, ddigwydd ar Fil tan i'r Senedd gytuno ar benderfyniad ariannol (os bydd ei angen), er y gellir cyflwyno gwelliannau cyn cytuno ar y penderfyniad ariannol (Rheolau Sefydlog 26.69 i 26.70).

## Rôl y pwyllgor cyfrifol

**48.** Rôl y pwyllgor cyfrifol yng Nghyfnod 2 yw ystyried testun y Bil yn fanwl a gwaredu unrhyw welliannau sydd wedi cael eu cyflwyno. Mae 'gwaredu' gwelliant yn golygu bod penderfyniad wedi'i wneud ar y gwelliant hwnnw. Gallai hyn gynnwys derbyn, gwrthod, tynnu'n ôl ac ati.

## Cyflwyno gwelliannau

**49.** Caniateir i welliannau gael eu cyflwyno o'r diwrnod cyntaf y bydd Cyfnod 2 yn dechrau (Rheol Sefydlog 26.20). Rhaid cyflwyno gwelliannau heb fod yn llai na phum niwrnod gwaith cyn y cyfarfod lle y cânt eu hystyried (Rheol Sefydlog 26.59).

**50.** Caiff unrhyw Aelod gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2, ac nid oes terfyn ar nifer y gwelliannau y gellir eu cyflwyno.

**51.** Mae gwelliannau yn cael eu cyflwyno gyda'r clercod sy'n cefnogi'r pwyllgor cyfrifol. Gall y clercod hefyd ddarparu neu drefnu cyngor gweithdrefnol, cyfreithiol a chyflwyno i Aelodau mewn perthynas â gwelliannau.

**52.** Ar ôl i welliannau gael eu cyflwyno, cânt eu cyhoeddi ar dudalen we'r Bil perthnasol ar Hysbysiad ynghylch Gwelliannau dyddiol. Rhoddir rhif unigryw i bob gwelliant yn ôl y drefn y cafodd y gwelliannau eu cyflwyno.

**53.** Ni chaiff gwelliannau eu dethol yng Nghyfnod 2, felly gellir cynnig unrhyw welliant derbyniadwy a gyflwynwyd yn y cyfarfod pwyllgor.

## Trefn y broses ystyried

**54.** Mae gwelliannau a gyflwynwyd yng Nghyfnod 2 yn cael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn berthnasol iddynt yn codi yn y Bil, oni bai bod y pwyllgor yn penderfynu fel arall (Rheol Sefydlog 26.21).

**55.** Os yw pwyllgor yn penderfynu amrywio'r drefn y bydd yr adrannau a'r atodlenni yn cael eu hystyried, byddai hyn fel arfer yn cael ei wneud cyn y cyfarfod cyntaf lle y bydd y gwelliannau yn cael eu hystyried, er mwyn i'r Rhestr o Welliannau Wedi'i Didoli (y rhestr o'r holl welliannau sydd wedi'u cyflwyno yn y drefn y byddant yn cael eu hystyried) - gweler y Canllaw i welliannau i Filiau Cyhoeddus) i adlewyrchu'r drefn newydd.

## Grwpio gwelliannau

**56.** Caiff cadeirydd pwyllgor sy'n ystyried trafodion Cyfnod 2 neu'r Llywydd, yn ôl fel y digwydd, grwpio gwelliannau at ddibenion dadleuon fel y gwêl yn dda. Ni chaniateir i welliant a drafodwyd fel rhan o grŵp gael ei drafod eto pan ddaw'n amser ei waredu (Rheol Sefydlog 26.64).

## Gwneud a chofnodi penderfyniadau ar welliannau yn y pwyllgor

**57.** Bydd rhestr o'r gwelliannau wedi'u didoli a rhestr o welliannau wedi'u grwpio yn cael eu paratoi a'u cyhoeddi ar gyfer pob cyfarfod Cyfnod 2. Mae'r rhestrau hyn yn gosod y drefn y bydd gwelliannau yn cael eu trafod a'u gwaredu yn ystod trafodion.

## Cynnig gwelliannau yn ystod trafodion pwyllgorau

**58.** Rhaid i welliant gael ei gynnig (sef ffordd i gyflwyno'r gwelliant yn ffurfiol i'r trafodion) cyn y gellir gwneud penderfyniad arno. Er y gall unrhyw Aelod gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2, dim ond aelod o'r pwyllgor cyfrifol gaiff gynnig gwelliant a phleidleisio arno yn ystod trafodion Cyfnod 2 (Rheol Sefydlog 26.22).

**59.** Gall unrhyw aelod o'r pwyllgor cyfrifol gynnig unrhyw welliant yn ystod trafodion Cyfnod 2, hyd yn oed os yw'r gwelliant hwnnw wedi'i gyflwyno gan Aelod nad yw'n aelod o'r pwyllgor (Rheol Sefydlog 26. 23).

**60.** Gall Aelod sydd wedi cyflwyno gwelliant ac sy'n dymuno iddo gael ei ystyried yn ystod trafodion Cyfnod 2, ond nad yw'n aelod o'r pwyllgor cyfrifol, fynd i'r trafodion hynny (gyda chaniatâd y cadeirydd) a chymryd rhan yn y

ddadl. Fodd bynnag rhaid iddynt yn gyntaf ddod o hyd i aelod o'r pwyllgor sy'n fodlon cynnig y gwelliant drostynt. Dim ond Aelodau'r pwyllgor cyfrifol a gaiff bleidleisio ar y gwelliannau.

## Gwaredu gwelliannau yn ystod trafodion pwyllgorau

**61.** Mae pleidleisio ar welliannau mewn pwyllgorau yn cael ei wneud 'drwy amneidio', oni bai bod unrhyw Aelod yn gwrthwynebu. Bydd y Cadeirydd yn gofyn i welliant gael ei dderbyn ac, os na fydd gwrthwynebiad, bernir bod y gwelliant wedi'i dderbyn. Os bydd Aelod yn gwrthwynebu, gofynnir i'r pwyllgor bleidleisio ar y gwelliant dan sylw. Pleidleisir drwy godi dwylo ac mae angen mwyafrif clir o blaid gwelliant er mwyn iddo gael ei dderbyn.

**62.** Lle ceir pleidlais gyfartal, bydd y Cadeirydd yn defnyddio'i bleidlais fwrw. Mae hyn yn ychwanegol at bleidlais arferol y Cadeirydd fel Aelod o'r Pwyllgor. Bydd y bleidlais fwrw yn cael ei defnyddio i bleidleisio yn erbyn gwelliannau yng Nghyfnod 2.

**63.** Mae cofnodion pob cyfarfod pwyllgor yn nodi'r penderfyniad a wnaed ar bob gwelliant. Os bydd pleidlais wedi'i chynnal ar welliant, yr arfer yw cofnodi enwau'r rheini sy'n pleidleisio a'r ffordd y gwnaethant bleidleisio.

## Cwblhau Cyfnod 2

**64.** Bernir bod adran neu atodlen wedi'i chytuno pan waredir y gwelliant olaf a gyflwynwyd iddi (Rheol Sefydlog 26.24). Os nad yw gwelliant yn cael ei gyflwyno i adran neu atodlen, bernir bod yr adran neu'r atodlen honno wedi'i chytuno at ddibenion trafodion Cyfnod 2 ar y pwynt y mae'n cael ei gyrraedd yn y drefn ystyried (Rheol Sefydlog 26.25).

**65.** Mae Cyfnod 2 wedi'i gwblhau pan fydd y gwelliant olaf wedi'i waredu gan y pwyllgor cyfrifol neu y bernir bod yr adran neu'r atodlen olaf wedi cael ei chytuno, pa un bynnag yw'r olaf (Rheol Sefydlog 26.26).

**66.** Mae Cyfnod 3 yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i Gyfnod 2 ddod i ben (Rheol Sefydlog 26.29).

## Y Bil, fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 2

**67.** Yn dilyn cwblhau trafodion Cyfnod 2, mae fersiwn 'fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 2' o'r Bil yn cael ei pharatoi a'i chyhoeddi ar dudalen we'r Bil. Mae'r fersiwn ddiwygiedig yn cynnwys llinellau yn yr ymyl dde, sy'n nodi lle y gwnaed unrhyw newidiadau i'r testun.

**68.** Os bydd gwelliant yn gofyn am newid yn rhifau neu strwythur y Bil, mae'r newidiadau hyn wedi'u cynnwys yn y fersiwn ddiwygiedig. Er enghraifft, pe byddai adran newydd yn cael ei mewnosod rhwng yr adrannau 1 a 2 presennol, byddai'r adran newydd yn cael ei rhifo yn '2' a byddai adrannau dilynol y Bil yn cael eu hailrifo yn unol â hynny.


## Memoranda Esboniadol diwygiedig

**69.** Os caiff Bil ei ddiwygio yng Nghyfnod 2, rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol amdano baratoi Memorandwm Esboniadol diwygiedig, oni bai bod y pwyllgor sy'n ystyried trafodion Cyfnod 2 yn penderfynu nad oes angen Memorandwm Esboniadol diwygiedig (Rheol Sefydlog 26.27).

**70.** Rhaid i'r Memorandwm Esboniadol diwygiedig a baratowyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol gael ei osod pum niwrnod gwaith o leiaf cyn i'r Senedd gwrdd i ystyried trafodion Cyfnod 3 am y tro cyntaf (Rheol Sefydlog 26.28).

**71.** Dylai'r Memorandwm Esboniadol diwygiedig fod at yr un dibenion â'r Memorandwm gwreiddiol, sef dylai ddarparu eglurhad gwrthrychol o'r hyn y mae pob darpariaeth yn y Bil yn ei wneud. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar dudalen we'r Bil.

# Cyfnod 3 – y Senedd yn ystyried y Bil yn fanwl




**72.** Mae adran 111(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol bod Rheolau Sefydlog y Senedd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ystyried manylion Bil ac i Aelodau o’r Senedd bleidleisio arno.

**73.** Mae Cyfnod 3 ym mhroses ddeddfu’r Senedd yn bodloni’r gofyniad hwn, ac yn cynnwys Cyfarfod Llawn y Senedd yn ystyried y Bil yn fanwl.

**74.** Mae Rheolau Sefydlog 26.29 i 26.44 yn darparu’r fframwaith ar gyfer Cyfnod 3. Rhaid i’r amserlen ar gyfer Cyfarfod Llawn y Senedd yn ystyried y Bil gael ei threfnu o dan ddarpariaethau Rheolau Sefydlog 11.12 (ar gyfer Biliau’r Llywodraeth) neu 11.7(ii) (ar gyfer Biliau anllywodraethol).

**75.** Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â’r Canllawiau i Welliannau i Filiau Cyhoeddus, sy’n nodi’r rheolau a’r gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno, ystyried a gwneud penderfyniad ar (neu ‘waredu’) welliannau yng Nghyfnod 3.

## Dechrau Cyfnod 3

**76.** Mae Cyfnod 3 yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i Gyfnod 2 ddod i ben (Rheol Sefydlog 26.29).

## Yr amserlen ar gyfer Cyfnod 3

**77.** Ac eithrio yn achos Biliau Brys, mae’n rhaid i 15 diwrnod gwaith o leiaf fynd heibio cyn dechrau Cyfnod 3 a dyddiad y cyfarfod cyntaf lle mae’r Senedd yn ystyried trafodion Cyfnod 3 (Rheol Sefydlog 26.30). Bwriad hyn yw sicrhau bod digon o amser i’r Aelodau ystyried a chyflwyno gwelliannau i’r Bil cyn i drafodion Cyfnod 3 ddechrau.

**78.** Cytunir ar ddyddiadau cyfarfodydd er mwyn ystyried gwelliannau i Fil mewn Cyfarfod Llawn drwy'r broses arferol o drefnu a chytuno ar fusnes y Cyfarfod Llawn (Rheol Sefydlog 11.7).

## Rôl y Senedd

**79.** Rôl y Senedd yng Nghyfnod 3 yw ystyried testun y Bil yn fanwl a gwaredu unrhyw welliannau a ddewisir i'w hystyried. Mae 'gwaredu' gwelliant yn golygu bod penderfyniad wedi'i wneud ar y gwelliant hwnnw. Gallai hyn gynnwys derbyn, gwrthod, tynnu'n ôl ac ati.

## Cyflwyno gwelliannau

**80.** Caniateir i welliannau gael eu cyflwyno o'r diwrnod cyntaf y bydd Cyfnod 3 yn dechrau (Rheol Sefydlog 26.33). Ac eithrio 'gwelliannau hwyr', rhaid i welliannau gael eu cyflwyno heb fod yn llai na phum niwrnod gwaith cyn y cyfarfod lle y byddant yn cael eu hystyried (Rheol Sefydlog 26.59). Yng Nghyfnod 3, gall y Llywydd, mewn amgylchiadau eithriadol, dderbyn gwelliant hwyr lle y rhoddwyd llai na phum niwrnod o rybudd (Rheol Sefydlog 26.35).

**81.** Caiff unrhyw Aelod gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 3, ac nid oes terfyn ar nifer y gwelliannau y gellir eu cyflwyno.

**82.** Mae gwelliannau yn cael eu cyflwyno gyda'r clercod sy'n cefnogi'r pwyllgor cyfrifol a ystyriodd y Bil yng Nghyfnod 1 a 2. Gall y clercod hefyd ddarparu neu drefnu cyngor gweithdrefnol, cyfreithiol a chyflwyno i Aelodau mewn perthynas â gwelliannau.

**83.** Ar ôl i welliannau gael eu cyflwyno, cânt eu cyhoeddi ar dudalen we'r Bil perthnasol ar Hysbysiad ynghylch Gwelliannau dyddiol. Rhoddir rhif unigryw i bob gwelliant yn ôl y drefn y cafodd y gwelliannau eu cyflwyno.

## Trefn ystyried

**84.** Mae gwelliannau a gyflwynir yng Nghyfnod 3 yn cael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn berthnasol iddynt yn codi yn y Bil, oni bai bod y Senedd yn penderfynu fel arall (Rheol Sefydlog 26.36). Gall y Senedd amrywio'r drefn y bydd yr adrannau a'r atodlenni yn cael eu hystyried drwy gytuno ar gynnig y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y llywodraeth neu'r Pwyllgor Busnes. Byddai cynnig o'r fath fel arfer yn cael ei gytuno cyn cyfarfod cyntaf y Senedd lle bydd gwelliannau yn cael eu hystyried, er mwyn i'r Rhestr o Welliannau wedi'i Didoli (y rhestr o'r holl welliannau a gyflwynwyd yn y drefn y

byddant yn cael eu hystyried -gweler y Canllaw i Welliannau i Filiau Cyhoeddus),) i adlewyrchu'r drefn newydd.

## Dethol gwelliannau

**85.** Yn wahanol i drafodion Cyfnod 2, lle y gellir cynnig a thrafod unrhyw welliannau derbyniadwy, gall y Llywydd ddewis y gwelliannau hynny sydd i'w cymryd yn ystod trafodion Cyfnod 3 (Rheol Sefydlog 26.34).

**86.** Mae gan y Llywydd ddisgresiwn i wrthod dewis gwelliant lle mae'n ystyried bod y dull priodol o gynnal busnes yn golygu ei bod yn briodol gwneud hynny. Diben dewis gwelliannau yw galluogi i'r trafodion mewn perthynas â Bil gael eu cwblhau mewn amser rhesymol a, lle y bo'n briodol, osgoi ailadrodd unrhyw drafodaethau am faterion a drafodwyd yn llawn yn ystod Cyfnod 2 yn ddiangen. Gall rhesymau dros beidio â dewis gwelliant gynnwys y rhai a ganlyn, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt:

- pe byddai gwelliant yn cael yr un effaith â gwelliant / gwelliannau tebyg sydd eisoes wedi'u cyflwyno;
- os yw gwelliant yr un peth â gwelliant a ystyriwyd (ond na chytunwyd arno) yn ystod trafodion Cyfnod 2, neu'n debyg iddo.

### Grwpio gwelliannau

**87.** At ddiben trafodion Cyfnod 3, caiff y Llywydd grwpio'r gwelliannau at ddibenion dadleuon. Ni chaniateir i welliant a drafodwyd fel rhan o grŵp gael ei drafod eto pan ddaw'n amser ei waredu (Rheol Sefydlog 26.64).

## Amserlennu trafodion

**88.** Gall y Senedd, ar gynnig heb rybudd gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y llywodraeth neu'r Pwyllgor Busnes, bennu terfynau amser i'w cymhwyso i ddadleuon ar welliannau (fel y maent wedi eu grwpio gan y Llywydd) (Rheol Sefydlog 26.37). Gallai hyn fod yn briodol, er enghraifft, lle mae nifer fawr o welliannau ac mae angen i'r amser gael ei ddosbarthu'n rhesymol ymhlith yr amrywiol grwpiau o welliannau.

## Gwneud penderfyniadau ar welliannau yn y Cyfarfod Llawn a'u cofnodi

**89.** Ar gyfer pob cyfarfod Cyfnod 3, caiff Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli a Rhestr o Welliannau wedi'u Grwpio eu paratoi a'u cyhoeddi. Mae'r rhestrau hyn

yn gosod y drefn y bydd gwelliannau yn cael eu trafod a'u gwaredu yn ystod trafodion.

**90.** Mae pleidleisio ar welliannau yn y Cyfarfod Llawn yn cael ei wneud 'drwy amneidio', oni bai bod unrhyw Aelod yn gwrthwynebu. Bydd y Llywydd yn gofyn a ddylid derbyn y gwelliant. Os nad oes gwrthwynebiad, bernir bod y gwelliant wedi'i dderbyn. Os bydd gwrthwynebiad, rhaid cynnal pleidlais ar y gwelliant. Mae pleidleisio'n digwydd yn electronig, ac mae angen mwyafrif syml o blaid gwelliant er mwyn derbyn y gwelliant hwnnw.

**91.** Os bydd pleidlais gyfartal, bydd y Llywydd yn defnyddio ei bleidlais fwrw. Defnyddir y bleidlais fwrw i bleidleisio yn erbyn gwelliannau yng Nghyfnod 3.

**92.** Caiff trawsgrifiadau o drafodion y Cyfarfod Llawn eu cyhoeddi o fewn 24 awr i'r cyfarfod. Pan gynhelir pleidlais ar welliant, bydd enwau'r rheini sy'n pleidleisio a'u pleidlais yn cael eu cofnodi. Ceir manylion hefyd ynghylch pleidleisiau a gynhaliwyd ar welliannau yn y Pleidleisiau a Thrafodion, a gaiff eu cyhoeddi o fewn 30 munud i ddiwedd pob cyfarfod.

## Trafodion Cyfnod 3 pellach

**93.** Pan fydd yr holl welliannau a ddewiswyd wedi'u gwaredu yng Nghyfnod 3, gall yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, neu unrhyw aelod o'r Llywodraeth, heb hysbysiad, gynnig bod y Senedd yn ystyried gwelliannau pellach mewn trafodion Cyfnod 3 pellach (Rheol Sefydlog 26.39).

**94.** Os derbynnir cynnig o'r fath, gall yr Aelod sy'n gyfrifol, neu unrhyw Aelod o'r Llywodraeth, gyflwyno gwelliannau i'r Bil i'w cynnig yn y trafodion Cyfnod 3 pellach (Rheol Sefydlog 26.40). Cyflwynir gwelliannau yn yr un modd ag ar gyfer trafodion Cyfnod 2 a Chyfnod 3. Fodd bynnag, gellir cyflwyno gwelliannau ar yr amod eu bod yn:

- bodloni'r meini prawf o dan Reol Sefydlog 26.61, ac
- at ddiben egluro darpariaeth Mesur arfaethedig neu weithredu ar ymrwymiadau a roddwyd yn y trafodion Cyfnod 3 cynharach yn unig (Rheol Sefydlog 26.41).

**95.** Mae amserlennu trafodion Cyfnod 3 pellach yn fater i'r Llywodraeth o ran Bil y Llywodraeth, neu'r Pwyllgor Busnes ar gyfer Bil anllywodraethol.

## Cwblhau Cyfnod 3

**96.** Bernir bod adran neu atodlen wedi'i chytuno pan waredir y gwelliant olaf a gyflwynwyd iddi (Rheol Sefydlog 26.24). Os nad yw gwelliant yn cael ei gyflwyno i adran neu atodlen, bernir bod yr adran neu'r atodlen honno wedi'i derbyn at ddibenion trafodion Cyfnod 3 ar y pwynt y mae'n cael ei gyrraedd yn y drefn ystyried (Rheol Sefydlog 26.43).

**97.** Daw Cyfnod 3 i ben pan fydd y gwelliant olaf wedi'i waredu neu pan fernir bod yr adran neu'r atodlen olaf wedi'i derbyn, pa un bynnag a ddaw olaf (Rheol Sefydlog 26.44).

## Y Cyfnod Adrodd a'r Cyfnod Adrodd pellach

**98.** Pan fydd Cyfnod 3 wedi'i gwblhau, gall yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil wneud cynnig, heb hysbysiad, bod y Senedd yn ystyried gwelliannau yn y Cyfnod Adrodd (Rheol Sefydlog 26.45).

**99.** Mae'r Cyfnod Adrodd yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol ar gyfer y broses graffu er mwyn i'r Senedd allu dychwelyd i faterion penodol mewn perthynas â'r Bil os yw'n dymuno gwneud hynny. Mae hefyd yn cryfhau'r broses graffu drwy sicrhau, os bydd angen, bod gan y Senedd fynediad at Gyfnod diwygio pellach, yn enwedig pan fydd newidiadau sylweddol neu bwysig, fel mewnosod Rhan neu Bennod newydd i Fil, wedi cael eu cytuno yng Nghyfnod 3.

**100.** Mae'r un gweithdrefnau sy'n gymwys at ddibenion Cyfnod 3 a Chyfnod 3 pellach hefyd yn gymwys i'r Cyfnod Adrodd a'r Cyfnod Adrodd pellach (Rheol Sefydlog 26.46).

## Y Bil, fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 3

**101.** Yn dilyn cwblhau trafodion Cyfnod 3, os yw'r Senedd wedi cytuno i ystyried y Bil yn y Cyfnod Adrodd, mae fersiwn 'fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 3' o'r Bil yn cael ei pharatoi a'i chyhoeddi ar dudalen we'r Bil. Mae'r fersiwn ddiwygiedig yn cynnwys llinellau yn yr ymyl dde, sy'n nodi lle y gwnaed unrhyw newidiadau i'r testun.

**102.** Os bydd gwelliant yn gofyn am newid yn rhifau neu strwythur y Bil, mae'r newidiadau hyn wedi'u cynnwys yn y fersiwn ddiwygiedig. Er enghraifft, pe byddai adran newydd yn cael ei mewnosod rhwng yr adrannau 1 a 2 presennol, byddai'r adran newydd yn cael ei rhifo yn '2' a byddai adrannau dilynol y Bil yn cael eu hailrifo yn unol â hynny.


## Memorandwm Esboniadol Diwygiedig

**103.** Os yw Bil yn cael ei ddiwygio yn ystod trafodion Cyfnod 3 a bod y Senedd yn cytuno i ystyried y Bil yn y Cyfnod Adrodd, rhaid i’r Aelod sy’n gyfrifol baratoi Memorandwm Esboniadol diwygiedig, oni bai bod y Senedd yn penderfynu nad oes angen Memorandwm Esboniadol diwygiedig (Rheol Sefydlog 26.46A).

**104.** Rhaid i’r Memorandwm Esboniadol diwygiedig a baratowyd gan yr Aelod sy’n gyfrifol gael ei osod pum niwrnod gwaith o leiaf cyn i’r Senedd gwrdd i ystyried trafodion y Cyfnod Adrodd am y tro cyntaf (Rheol Sefydlog 26.46B).

**105.** Dylai’r Memorandwm Esboniadol diwygiedig fod at yr un dibenion â’r Memorandwm gwreiddiol, sef dylai ddarparu eglurhad gwrthrychol o’r hyn y mae pob darpariaeth yn y Bil yn ei wneud. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar dudalen y Bil ar y we.

# Cyfnod 4 ac ymhellach – y Senedd yn pasio'r Bil ac yn ei gyflwyno ar gyfer y Cydsyniad Brenhinol




**106.** Mae Adran 111(1)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ('Deddf 2006') yn ei gwneud yn ofynnol bod Rheolau Sefydlog y Senedd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer Cyfnod terfynol lle y gall y Senedd dderbyn neu wrthod Bil.

**107.** Mae Cyfnod 4 ym mhroses ddeddfu'r Senedd yn bodloni'r gofyniad hwn, a rhaid i'r Senedd bleidleisio er mwyn pasio testun terfynol y Bil.

**108.** Mae'r fframwaith ar gyfer Cyfnod 4 yn Rheolau Sefydlog 26.47 i 26.51.

## Cyfnod 4

**109.** Yng Nghyfnod 4, bydd y Senedd yn pleidleisio ar gynnig i basio testun terfynol y Bil.  Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig y dylai Bil gael ei basio (Rheol Sefydlog 26.49) ac ni chaniateir gwneud cynnig bod Bil yn cael ei basio oni bai bod testun y Bil ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg (Rheol Sefydlog 26.50).

**110.** Yn ogystal, ni chaniateir gwneud cynnig bod Bil yn cael ei basio nes y bydd y Llywydd wedi datgan, yn unol ag adran 111A(3) o'r Ddeddf, a oes unrhyw un o ddarpariaethau'r Bil, ym marn y Llywydd, yn ymwneud â phwnc gwarchodedig (Rheol Sefydlog 26.50A). Pan fo'r Llywydd wedi gwneud datganiad bod unrhyw ddarpariaeth yn y Bil yn ymwneud â phwnc gwarchodedig, dim ond os yw'r nifer sy'n pleidleisio o'i blaid yn ddwy ran o dair o gyfanswm seddi'r Senedd (Rheol Sefydlog 26.50B) y caiff y Bil ei basio.

**111.** Yn dilyn cwblhau Cyfnod 3, neu'r Cyfnod Adrodd pan cynhelir ef, caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig i basio Bil. Rhaid cyflwyno'r cynnig un diwrnod gwaith o leiaf cyn iddo gael ei drafod, ac ni chaiff ei ystyried hyd nes bydd o leiaf pum niwrnod gwaith wedi mynd heibio ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 3, neu

drafodion y Cyfnod Adrodd, os cawsant eu cynnal (Rheol Sefydlog 26.47 to 26.47A).


**112.** Fel arall, yn amodol ar ofynion Rheol Sefydlog 26.50, gyda chytundeb y Llywydd, gall Aelod gynnig heb hysbysiad fod y Bil yn cael ei basio ar unwaith ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 3 (neu drafodion y Cyfnod Adrodd os cawsant eu cynnal) (Rheol Sefydlog 26.48).

**113.** Rhaid cynnal pleidlais wedi'i chofnodi ar gynnig bod y Bil yn cael ei basio. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheol Sefydlog 26.50B, sy'n ymwneud â materion pwnc gwarchodedig, rhaid cael mwyafrif syml o blaid y cynnig er mwyn i'r Bil gael ei basio.

**114.** Os bydd pleidlais gyfartal, bydd y Llywydd yn defnyddio ei bleidlais fwrw. Defnyddir y bleidlais fwrw i bleidleisio yn erbyn pasio Bil yng Nghyfnod 4.

**115.** Os yw’r Senedd yn gwrthod y Bil yng Nghyfnod 4, ni ellir gweithredu trafodion pellach arno. Ni chaniateir cyflwyno unrhyw Fil sydd, ym marn y Llywydd, yn yr un telerau neu delerau tebyg yn yr un Senedd o fewn chwe mis ar ôl y dyddiad y cafodd y Bil ei wrthod (Rheol Sefydlog 26.76).


## Ar ôl Cyfnod 4




**116.** Os caiff y Bil ei basio, bydd cyfnod o bedair wythnos yn dilyn. Yn ystod y Cyfnod hwn, gall y Cwnsler Cyffredinol neu’r Twrnai Cyffredinol, yn unol ag adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gyfeirio’r cwestiwn a yw’r Bil, neu unrhyw ddarpariaeth ynddo, yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i’r Goruchaf Lys am benderfyniad. Yn yr un modd, gall Ysgrifennydd Gwladol Cymru wneud gorchymyn yn gwahardd Clerc y Senedd rhag cyflwyno’r Bil er mwyn iddo gael y Cydsyniad Brenhinol os oes ganddo sail resymol dros gredu bod amodau penodol yn gymwys (adran 114 o Ddeddf 2006).

**117.** Ar ddechrau’r cyfnod, mae’r Llywydd yn ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru, y Cwnsler Cyffredinol, a’r Twrnai Cyffredinol i roi gwybod iddynt fod Bil wedi’i basio gan y Senedd, ac am y dyddiad y bydd y cyfnod yn dod i ben. Caiff ymatebion i’r llythyrau hyn eu cyhoeddi ar dudalen we’r Bil. Caiff ymatebion i’r llythyrau hyn eu cyhoeddi ar dudalen we’r Bil.

## Ailystyried Biliau




### Ailystyried Biliau a Basiwyd

**118.** Mae Rheolau Sefydlog 26.52 i 26.56B yn darparu ar gyfer Cyfnod Ailystyried Bil Cyhoeddus ar ôl iddo gael ei basio gan y Senedd.

**119.** Gellir ailystyried Bil sydd wedi'i basio:

i. os oes cwestiwn wedi'i gyfeirio at y Goruchaf Lys o dan adran 112 y Ddeddf;

ii. os oes cyfeiriad i gael dyfarniad rhagarweiniol wedi'i wneud gan y Goruchaf Lys mewn cysylltiad â'r cyfeiriad hwnnw; ac

iii. os nad yw'r naill gyfeiriad na'r llall wedi'i benderfynu neu wedi'i waredu fel arall (Rheol Sefydlog 26.52).

**120.** Gellir ailystyried Bil hefyd:

i. os bydd y Goruchaf Lys yn penderfynu na fyddai'r Bil neu unrhyw ddarpariaeth ynddo o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd; neu

ii. os gwneir Gorchymyn mewn perthynas â'r Bil o dan adran 114 o'r Ddeddf (Rheol Sefydlog 26.53).

**121.** Os caiff cynnig o dan Reolau Sefydlog 26.53 neu 26.54 ei dderbyn, mae'r Cyfnod Ailystyried yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i'r cynnig gael ei dderbyn (Rheol Sefydlog 26.53A). Mae trafodion y Cyfnod Ailystyried yn digwydd yn y Cyfarfod Llawn (Rheol Sefydlog 26.54), ac mae'n rhaid i o leiaf bymtheg diwrnod gwaith fynd heibio cyn dechrau'r Cyfnod Ailystyried a chyfarfod cyntaf y Senedd sy'n ystyried trafodion y Cyfnod Ailystyried (Rheol Sefydlog 26.53B).

**122.** Gall unrhyw Aelod gyflwyno gwelliannau i'r Bil yn nhrafodion y Cyfnod Ailystyried. Fodd bynnag, gellir cyflwyno gwelliannau ar yr amod eu bod yn:

- bodloni'r meini prawf o dan Reol Sefydlog 26.61, ac
- os bwriedir iddynt yn unswydd ddatrys mater sydd yn destun:

i. cyfeiriad at y Goruchaf Lys ar gyfer dyfarniad rhagarweiniol;

ii. penderfyniad y Goruchaf Lys; neu

iii. y Gorchymyn o dan adran 114 o’r Ddeddf (Gorchymyn Sefydlog 26.55).

**123.** Yn dilyn cwblhau trafodion y Cyfnod Ailystyried, gall unrhyw Aelod wneud cynnig, heb hysbysiad, bod y Senedd yn cymeradwyo Bil a ddiwygiwyd ar ôl cael ei ailystyried. Ni ellir diwygio cynnig o’r fath (Rheol Sefydlog 26.56).

**124.** Ni chaniateir gwneud cynnig bod Bil a ailystyriwyd yn cael ei gymeradwyo nes y bydd y Llywydd wedi datgan, yn unol ag adran 111A(3) o'r Ddeddf, a oes unrhyw un o ddarpariaethau'r Bil yn ymwneud â phwnc gwarchodedig. Pan fo'r Llywydd wedi gwneud datganiad bod unrhyw ddarpariaeth yn y Bil ar ôl y cyfnod ailystyried, yn ymwneud â phwnc gwarchodedig, ni chaiff y Bil hwnnw ei gymeradwyo oni bai bod y nifer sy'n pleidleisio o'i blaid yn cyfateb i o leiaf ddwy ran o dair o gyfanswm seddau'r Senedd.

## Ailystyried Biliau a wrthodwyd

**125.** Mae Rheolau Sefydlog 26.52C i 26.56G yn darparu ar gyfer Cyfnod Ailystyried Bil Cyhoeddus gan y Senedd ar ôl iddo gael ei wrthod.


**126.** Caiff unrhyw Aelod wneud cynnig bod y Senedd yn ailystyried Bil os bydd y Goruchaf Lys yn penderfynu ynglŷn â chyfeiriad a wnaed o dan adran 111B(2)ac o'r Ddeddf mewn perthynas â Bil a wrthodwyd gan y Senedd, nad oes unrhyw ddarpariaeth yn y Bil sy'n destun y cyfeiriad yn ymwneud â phwnc gwarchodedig (Rheol Sefydlog 26.56C).

**127.** Os bydd y Senedd yn derbyn cynnig o dan Reol Sefydlog 26.56C, mae'r Cyfnod Ailystyried yn dechrau ar y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl i'r cynnig hwnnw gael ei dderbyn. Ni chaniateir gwneud gwelliannau i Fil a ailystyriwyd yn unol â Rheol Sefydlog 26.56C.

**128.** Yn y Cyfnod Ailystyried yn unol â Rheol Sefydlog 26.56C, caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig i gymeradwyo'r Bil. Ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynnig o'r fath a rhaid cynnal pleidlais wedi'i chofnodi ar y cynnig (Rheol Sefydlog 26.56F).

**129.** Ni chaniateir gwneud cynnig o dan Reol Sefydlog 26.56F nes y bydd y Llywydd wedi datgan, yn unol ag adran 111A(3) o'r Ddeddf, a oes unrhyw un o ddarpariaethau'r Bil, ym marn y Llywydd, yn ymwneud â phwnc gwarchodedig.

## Ar ôl Cyfnod Ailystyried




**130.** Os caiff y Bil a ailystyriwyd ei basio, mae cyfnod hysbysu o bedair wythnos yn dechrau. Fel o'r blaen, gall y Cwnsler Cyffredinol neu'r Twrnai Cyffredinol gyfeirio'r cwestiwn a yw'r Bil, neu unrhyw ddarpariaeth ynddo, yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd i'r Goruchaf Lys am benderfyniad (adran 112 o Ddeddf 2006). Yn yr un modd, gall Ysgrifennydd Gwladol Cymru wneud gorchymyn yn gwahardd y Llywydd rhag cyflwyno'r Bil er mwyn iddo gael y Cydsyniad Brenhinol os oes ganddo sail resymol dros gredu bod amodau penodol yn gymwys (adran 114 o Ddeddf 2006).

**131.** Os cyfeirir cwestiwn i'r Goruchaf Lys, a bod y Goruchaf Lys yn penderfynu bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mae ail gyfnod o bedair wythnos o ddyddiad penderfyniad y Goruchaf Lys. Yn ystod y Cyfnod hwn, gall Ysgrifennydd Gwladol Cymru wneud gorchymyn yn gwahardd y Llywydd rhag cyflwyno'r Bil er mwyn iddo gael y Cydsyniad Brenhinol os oes ganddo sail resymol dros gredu bod amodau penodol yn gymwys (adran 114 o Ddeddf 2006).

## Cydsyniad Brenhinol

**132.** Mae adran 115 o Ddeddf 2006 yn nodi bod yn rhaid i Fil, ar ôl ei basio gan y Senedd, gael ei gyflwyno gan y Llywydd er mwyn iddo gael y Cydsyniad Brenhinol. Dim ond ar ôl i'r cyfnod o bedair wythnos ddod i ben y gellir gwneud hyn.

**133.** Caiff Bil Gydsyniad Brenhinol pan fydd y Clerc yn cael Breinlythyrau o dan y Sêl Gymreig wedi'u llofnodi gan Ei Fawrhydi sy'n dynodi Ei Gydsyniad. Unwaith y bydd Bil wedi cael y Cydsyniad Brenhinol, daw yn Ddeddf gan Senedd Cymru.

**134.** Bydd y Clerc yn hysbysu'r Senedd ynglŷn â'r dyddiad y bydd Deddf y Senedd yn cael y Cydsyniad Brenhinol (Rheol Sefydlog 26.75).

